

## Datganiadau Ariannol y Gronfa Gymunedol 2005/06 – adroddiad dilynol ar y camau a gymerwyd gan y Gronfa ar ôl darganfod ceisiadau afreolaidd am grantiau ym mis Medi 2004

### Diben yr Adroddiad

1. Mae'r Gronfa Gymunedol, sydd bellach yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr, yn dosbarthu arian i'r sectorau gwirfoddol ac elusennol drwy nifer o gynlluniau grantiau. Yn eu plith y mae'r rhaglen Arian i Bawb, sef cynllun grantiau'r loteri sydd wedi'i anelu at gymunedau lleol. Ers i'r rhaglen gychwyn ym 1999 mae dros 95,000 o ddyfarniadau wedi'u gwneud sef cyfanswm o tua £347 miliwn. Yn 2005/06, gwnaed 12,743 o grantiau (ar gyfer symiau rhwng £500–£5,000) sy'n gwneud cyfanswm o £53 miliwn a chyfran y Gronfa oedd £10.3 miliwn.
2. Ym mis Medi 2004, sylwodd y Gronfa Gymunedol yn gyntaf ar nifer o anghysondebau mewn rhai ceisiadau am grantiau. Cychwynnodd y Gronfa, yr heddlu a'r Comisiwn Elusennau ar ymchwiliadau helaeth i'r ceisiadau a oedd o bosibl yn dwyllodrus. Gwnaed mwyafrif y taliadau grantiau y canfuwyd anghysondebau o dan y rhaglen Arian i Bawb Lloegr, y mae'r Gronfa Gymunedol yn ei gweinyddu ar ran consortiwm o ddsbarthwyr y loteri. Mae'r amryw ymchwiliadau yn parhau ac nid oes unrhyw dwyll wedi'i brofi hyd yma.
3. Fe wnes i gymhwyso fy marn ac adrodd ar ddatganiadau ariannol 2004/05<sup>1</sup> y Gronfa Gymunedol ar y sail nad oedd y taliadau a wnaed mewn cysylltiad â'r ceisiadau a oedd o bosibl yn dwyllodrus yn unol â bwriadau'r Senedd o feddwl bod cyfnod y colledion yn ymestyn dros ryw 5 mlynedd.
4. Yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol sy'n gysylltiedig â'r datganiadau ariannol ar gyfer 2005/06 (tudalen 65), bellach mae'r Gronfa wedi amlinellu eu hamcangyfrif terfynol o'r colledion y maent wedi'u profi yn ystod y cyfnod rhwng 1999 a 2005. Maent hefyd wedi darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r camau a gymerwyd er mwyn lleihau'r risg o golledion o'r fath yn y dyfodol.
5. Diben fy adroddiad yn awr yw amlinellu'r rhesymau dros fy marn archwiliad ddiamedod ar ddatganiadau ariannol y Gronfa ar gyfer 2005/06 ac i adrodd ar y cynnydd y mae'r Gronfa wedi'i wneud wrth weithredu'r argymhellion a wnaed gennyf yn fy adroddiad y llynedd. Rwyf hefyd yn amlinellu argymhellion ychwanegol sy'n deillio o waith pellach a wnaed wrth i mi archwilio cyfrifon 2005/06. Yn ystod y flwyddyn mae NAO wedi darparu arweiniad pellach ar arfer da wrth fynd i'r afael â thwyll allanol wrth ddsbarthu grantiau<sup>2</sup> sydd wedi'u canolbwyntio ar y sector diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon.

### Barn Archwilio Ddiamedod

6. Wrth ffurfio fy marn ar ddatganiadau ariannol 2005/06 y Gronfa Gymunedol, mae gofyn i mi gadarnhau, a yw incwm a gwariant y Gronfa, ym mhob agwedd faterol, wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu (hynny yw, eu bod yn "rheolaidd"). Wrth wneud hynny, rwyf wedi ystyried awdurdodau Trysorlys ei Mawrhydi, ynghyd â chyfeiriadau ariannol y Gronfa.

<sup>1</sup> [http://www.nao.org.uk/publications/nao\\_reports/05-06/communityfundreport.pdf](http://www.nao.org.uk/publications/nao_reports/05-06/communityfundreport.pdf)

<sup>2</sup> [http://www.nao.org.uk/guidance/DCMS\\_Fraud\\_in\\_Grant\\_Making.pdf](http://www.nao.org.uk/guidance/DCMS_Fraud_in_Grant_Making.pdf)

## Adran pump

7. Er mwyn ceisio'r sicrwydd angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad, rwyf wedi ystyried y fframwaith reoli sydd gan y Gronfa yn ei le yn awr ar gyfer asesu a monitro ceisiadau ynghyd ag adolygu pa un a ydynt wedi gweithredu'n effeithiol yn ymarferol. Rwyf hefyd wedi adolygu'r lefelau anghysondebau y mae'r Gronfa yn eu hadnabod yn ystod eu hymweliadau cydymffurfio eu hunain. Cefnogir hyn wrth i mi brofi sampl o ffeiliau grantiau fy hunan er mwyn gwirio bod y rheoliadau perthnasol yn gweithredu'n ymarferol. Rwyf hefyd wedi adolygu'r lefelau dileadau a gynigir gan y Gronfa fel y dangosir yn nodyn 21 eu datganiadau ariannol.
8. Rwy'n fodlon bod incwm a gwariant y Gronfa, ym mhob agwedd faterol, fel yr adroddir yn natganiadau ariannol 2005/06 wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd. Gan hynny rwyf wedi rhoi barn ddiamed ar ddatganiadau ariannol 2005/06 y Gronfa Gymunedol.
10. Yn fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2004/05, adroddais ar symiau yr oedd y Gronfa wedi nodi eu bod "wrth risg" o dwyll. Nid oedd modd rhoi gwerth cywirach o'r colledion a brofwyd oherwydd twyll a ddrwgdybiwyd oherwydd roedd y Gronfa a'r heddlu yn parhau i ymchwilio.
11. Ar y pryd, credwyd mai lefel uchaf y colledion a ddioddefwyd gan y Gronfa, er 1999, oedd £4.4 miliwn yn cynrychioli 0.18 y cant o gyfanswm y grantiau a dalwyd ers hynny a oedd yn dod i gyfanswm o ryw £2.4 biliwn. Fel yr esboniodd y Gronfa yn eu Datganiad ar Reolaeth Fewnol (gweler tudalen 65) mae gwaith pellach wedi'i wneud er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r lefelau twyll ac anghysonderau eraill o'r lefelau twyll sy'n bodoli o fewn y boblogaeth grantiau a adnabuwyd yn flaenorol eu bod "wrth risg" o dwyll. Dangosir y canlyniadau yn y tabl isod.

### Meintoliad o lefelau colledion posibl

9. Fel yr adroddwyd y llynedd, tynnwyd sylw'r Gronfa yn gyntaf at nifer o geisiadau grant amheus yn 2004/05 gan aelod o staff gwylidwrus. Ar ôl adnabod yr achosion cychwynnol o dwyll a ddrwgdybir yn ymwneud â cheisiadau lluosog, ymgwymerodd y Gronfa ag ymarfer casglu data ar ei system cronfa ddata grantiau er mwyn adnabod yr holl ddyfarniadau grantiau a thaliadau posibl a oedd yn gysylltiedig â'r achosion gwreiddiol.
12. Bellach mae'r Gronfa yn ystyried bod gwerth llawn y grantiau a ddrwgdybir yn Arian i Bawb wedi'i gollu a'i bwriad i'w eu dileu. Mae'r Gronfa hefyd yn cynnig dileu £510,446 fel y golled debygol a ddioddefwyd ar eu prif raglen grantiau. Mae'r Gronfa yn dal i ystyried y camau i'w cymryd yn yr achosion hynny lle fo toriadau wedi'u hadnabod yn yr amodau grantiau. Lle fo'r rhain yn arwyddocaol mae'n debyg y bydd y grant yn cael ei dynnu'n ôl a bydd naill ai camau adfer neu ddileu yn cael eu cymryd.

Categori	Arian i Bawb	Prif raglenni grantiau	Cyfanswm
----------	--------------	------------------------	----------

#### Fel yr adroddwyd y llynedd

Symiau a ystyriwyd wrth risg yn flaenorol	1,004,816	3,439,616	4,444,432
---	-----------	-----------	-----------

#### Fel yr adroddwyd yn awr – dosbarthiad wedi'i ddiwygio

Swm y cymerir ei fod yn ffug bellach:	1,004,816	510,446	1,515,262
Torri amodau grant		1,590,265	1,590,265
Cyfanswm posibl y taliadau afreolaidd	1,004,816	2,100,711	3,105,527
Achosion a archwiliwyd a'u cael yn rheolaidd		573,158	573,158
Archwiliad wedi'i gyfyngu gan gofnodion wedi'u gwaredu yn gyfreithlon		454,272	454,272
Archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau eto		311,475	311,475
<b>Cyfansymiau</b>	<b>1,004,816</b>	<b>3,439,616</b>	<b>4,444,432</b>

## Gwelliannau i'r mecanweithiau rheoli

**13.** Roedd fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2004/05 y Gronfa yn amlinellu'r camau yr oeddynt eisoes wedi'u cymryd neu a oedd yn cael eu cymryd i frwydro yn erbyn risg o dwyll oddi wrth geisiadau lluosog. I grynhoi, y rhain yw:

- offer dadansoddi data gwell a rhybuddion ar y system i hysbysu staff ynghylch ceisiadau a ddrwgdybir
- rhestrau gwirio wedi'u diwygio i'r staff eu defnyddio wrth asesu ceisiadau am grantiau
- hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll
- trosglwyddo'r tîm archwilio grantiau i safle yn annibynnol o'r gweithrediadau a lefelau staffio cynyddol o fewn y tîm; a
- chadarnhad o'r wybodaeth berthnasol o fanciau'r ymgeiswyr.

**14.** Ers hynny, mae'r gwaith i ddatblygu fframwaith reoli ar gyfer rhaglenni newydd y Gronfa Loteri Fawr wedi parhau. Ymhlith y gwelliannau allweddol y mae eu dulliau gweithredu ar gyfer:

- samplu ffeiliau grantiau er mwyn asesu gweithrediad effeithiol eu prosesau mewnol. Mae hyn yn cael ei arwain o fewn gweithrediadau ond gan dîm sy'n annibynnol o'r swyddogion grantiau
- ymweliadau ar hap â sampl o dderbynyddion grantiau yn ychwanegol at y rheini yr asesir eu bod yn risg uchel.

**15.** Mae'r Gronfa wedi adolygu'r fframwaith rheoli Dyfarniadau i Bawb. Mae'r rhaglen Arian i Bawb wedi'i "ail ardstio" fel addas i'r diben gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. O 28 Ebrill 2006, mae'r cynllun yn caniatáu i ymgeiswyr wneud cais am grantiau o hyd at £10,000 (i fyny o gyfyngiad blaenorol o £5,000).

## Adran pump

16. Mae'r fframwaith rheoli wedi'i wella wedi'i seilio'n bennaf ar wneud defnydd mwy effeithiol o offer dadansoddi data, gwirio hunaniaeth yr ymgeisydd yn fwy trylwyr a gwell hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll. Serch hynny mae'r gwiriadau yn parhau i ganolbwyntio ar werthuso'r ceisiadau am grantiau yn hytrach nac ar fonitro a dilyn ymlaen er mwyn sicrhau bod y grantiau wedi'u defnyddio yn ôl y bwriad. Y rheolaeth allweddol ar gyfer yr olaf yw adolygu adroddiadau diwedd grantiau.

### Cynnydd ar weithredu argymhellion blaenorol NAO

17. Yn fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2004/05 y Gronfa fe wnes i nifer o argymhellion y gallai'r Gronfa fwrw ymlaen â hwy yn ystod hynnt eu harchwiliad. Yn y paragraffau a ganlyn, rwyf yn rhoi'r diweddaraf ar sut mae'r argymhellion hyn wedi'u gweithredu gan y Gronfa hyd yma.

**Argymhellion ar gyfer y Gronfa** a chynnydd hyd yma:

- **dylid rhoi ystyriaeth fwy penodol i'r risg o dwyll a allai fodoli o fewn rhaglenni y bwriedir bod modd cael mynediad hawdd atynt a'r graddau y dylid rhoi rheolaethau yn eu lle i frwydro yn erbyn hyn.** Mae'r Gronfa wedi rhoi peth arwydd i ni yn y cyswllt hwn o'r rhaglen Arian i Bawb. Serch hynny, rhaid mewnosod ymhellach y broses o risg o dwyll fesul rhaglen fel rhan o fframwaith rheoli'r Gronfa sy'n esblygu. Heb yr asesiad hwn o'r risg o dwyll, ni all y Gronfa sicrhau bod y rheolaethau sydd yn eu lle yn gymesur

- **rhaid ystyried yn ofalus unrhyw fethiannau mewn rheolaeth fewnol a ganfyddir rhag ofn eu bod yn tynnu sylw at fethiant sy'n systematig yn hytrach na methiant untro yn unig.** Mae'r Gronfa wedi cyflwyno rhybuddion yn y system mewn ymateb i'r twyll yn ymwneud â cheisiadau lluosog. Fel rhan o lansio'r rhaglenni newydd, mae wedi ailasesu'r fframwaith rheoli sy'n ymwneud â'i holl raglenni. Gellir gwneud mwy o waith eto er mwyn gwneud gwell defnydd o fecanweithiau adrodd cyfredol, er enghraifft yn ymwneud ag anghydfodau ac ymweliadau ac er mwyn sicrhau bod y rheolwyr yn ymwybodol o dueddiadau allweddol yn y maes hwn

- **dylai'r pwyllgor archwilio adolygu'r broses er mwyn dwyn risgiau a adnabuwyd gan archwiliad mewnol i'w sylw a sicrhau nad yw crynhoi adroddiadau archwilio mewnol yn arwain at ganfyddiadau archwilio arwyddocaol yn cael eu gadael allan o'u trosolwg.** Bellach mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu crynodeb gweithredol o bob adroddiad archwilio mewnol, ynghyd â chrynodeb o'r argymhellion a wneir mewn meysydd risg uchel. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn bod crynodebau lefel uchel o reolaethau allweddol yn cael eu rhoi yn eu lle fesul rhaglen gan gynnwys y dulliau y bydd y Swyddog Cyfrifo yn eu defnyddio i ddiogelu sicrwydd dros reoleidd-dra ac mae hyn yn cael ei drefnu.

Argymhellion i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel yr adran nawdd

- **dylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ystyried a oes modd rhoi gwell eglurder ar atebolrwydd dros raglenni grantiau ar y cyd. Er enghraifft dylai'r Adran benodi Swyddog Cyfrifo arweiniol ar gyfer cynlluniau grantiau arwyddocaol a all wneud yr holl benderfyniadau yn ymwneud â'r cynllun yn hytrach na bod atebolrwydd yn dal i gael ei rannu fel sy'n wir am Arian i Bawb.** Mae'r Adran a dosbarthwyr perthnasol y loteri yn edrych ar ffyrdd o symleiddio prosesau yn unol â fy argymhelliad
- **oherwydd anghysonderau yn y ffordd yr adroddir ar gynlluniau grantiau unigol yng nghyfrifon blynyddol dosbarthwyr y loteri, dylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ystyried gyda'r Dosbarthwyr a oes modd adrodd ar yr holl raglenni tebyg ar y cyd gyda'i gilydd yn hytrach na bod pob dosbarthwr yn adrodd eu rhan hwy o'r grantiau a delir fel sy'n wir am Arian i Bawb.** Fel y nodwyd yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar dudalen 67, mae'r Gronfa, fel cam cyntaf, wedi paratoi cyfrif crynhoi heb ei archwilio ar gyfer cynllun Arian i Bawb ar gyfer 2005/06. Bydd hwn yn amodol ar gael ei archwilio yn y blynyddoedd i ddod.

## Datblygiad pellach yn y fframwaith rheoli a weithredir gan y Gronfa Loteri Fawr

**18.** Wrth ddilyn ymlaen ar waith y Gronfa mae gennyf yr argymhellion pellach a ganlyn:

Ar y risg o dwyll:

- dylid seilio datblygu fframwaith rheoli ar ystyriaeth fwy penodol o'r risg o dwyll sy'n gynhenid o fewn pob rhaglen. Byddai hyn yn caniatáu i'r Gronfa sicrhau bod y fframwaith rheoli a ddatblygir yn briodol.

Ar fonitro:

- mae lefelau'r grantiau sy'n cael eu dewis ar gyfer monitro manylach, megis ymweliad, wedi'u cyfyngu yn flaenorol gan lefelau staffio'r Gronfa. Dylai'r ystyriaeth ar gyfer nifer y grantiau i'w dewis ar gyfer ymweliad gychwyn gydag asesiad o lefel y sicrwydd y mae'r Swyddog Cyfrifo yn gofyn amdani ar gysondeb a'r radd o risg a wynebir ynghyd ag elfen o ddethol ar hap. Mae'n bwysig bod y broses ddiwygiedig o samplu ffeiliau grantiau i wirio eu bod yn cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau mewnol ac ar gyfer ymweld yn dod yn arfer yn gyflym a bod uwch reolwyr yn adolygu'r canfyddiadau allweddol o'r rhaglenni hyn. Lle fo'n angenrheidiol rhaid i'r Gronfa, eu partneriaid, y sawl sy'n derbyn y grantiau neu bob un ohonynt gymryd camau angenrheidiol. Os yw'r sawl sy'n derbyn y grantiau yn profi anawsterau gwirioneddol wrth gydymffurfio neu os gwelir eu bod yn peidio â chydymffurfio yn fwriadol yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid codi lefel yr ymweliadau

## Adran pump

- dylai'r Gronfa adolygu yn gyson pa un a yw'r adroddiad diwedd grant y maent yn gofyn i'r ymgeiswyr eu cynhyrchu yn darparu digon o dystiolaeth o sut mae'r grant wedi cael ei wario. Cefnogir yr adroddiad diwedd grant hefyd gan gyfres o ymweliadau ar sail sampl. Ac eto, dylid adolygu'n gyson lefelau'r ymweliadau er mwyn sicrhau eu bod yn amddiffyniad digonol yn erbyn y risg canfyddedig bod y grant yn cael ei gamwario
- yn ddealladwy, mae staff sy'n ymweld ag ymgeiswyr grant yn talu sylw sylweddol ar gynnydd y prosiect a pha un a yw'r prosiect yn cefnogi'r nifer arfaethedig o fuddiolwyr. Serch hynny, dylai'r Gronfa sicrhau hefyd bod y swyddogion grant yn rhoi digon o sylw i adolygu a dogfennu tystiolaeth o wariant, megis adolygu anfonebau, yn ystod eu hymweliadau.

Ar weithio gyda phartneriaid dyfarnu:

- dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r rheoliadau monitro a ddefnyddir gan bartneriaid dyfarnu (sy'n asesu ac yn monitro grantiau ar ran y Gronfa ar gyfer rhai rhaglenni). Dylai eu fframweithiau rheoli gynnwys yr un lefel o amddiffyniad yn erbyn twyll ag y mae'r Gronfa yn ei chymhwyso i'r grantiau y mae'n eu hasesu a'u monitro yn fewnol.

Ar y wybodaeth a ddarperir i'r rheolwyr:

- ar hyn o bryd mae'r Gronfa yn casglu ystod o ddata ariannol ac ansoddol fesul rhaglen ond nid yw'n cael ei grynhoi yn rheolaidd er mwyn rhoi safbwynt y sefydliad cyfan i'r uwch reolwyr. Rhaid i'r Swyddog Cyfrifo ystyried yn fwy penodol lefelau o doriadau i delerau ac amodau'r grantiau sy'n cael eu hadnabod gan y gwiriadau cydymffurfio rheolaidd a ymgymerir gan staff y Gronfa
  - mae cynigion parhaus i dwyllo'r sefydliad yn cael eu hadnabod drwy eu systemau rhybuddio. Dylid dadansoddi ac adrodd y wybodaeth hon wrth yr uwch reolwyr a'i rhannu gyda Phartneriaid Dyfarnu fely bo'n briodol.
- 19.** Gan fod y Gronfa Loteri Fawr yn cymryd rolau'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd<sup>3</sup>, rydym wedi tynnu sylw'r Gronfa at y materion a godwyd y credwn ni sydd eisiau eu hystyried ymhellach. Dylai'r Gronfa gyfeirio hefyd at ein harweiniad cyhoeddedig.

John Bourn

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain SW1W 9SP

15 Tachwedd 2006

<sup>3</sup>Derbyniodd Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 gydsyniad brenhinol ar 11 Gorffennaf 2006 a disgwyllir iddi ddod i rym dros y misoedd nesaf.

Cyfrifon Blynyddol y Gronfa Gymunedol  
Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31  
Mawrth 2006

	Nodyn	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000
<b>Incwm</b>			
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	11	230,419	226,074
Incwm buddsoddiad o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (Cynnydd)/Gostyngiad ar golled ar ailbriso buddsoddiad	11	8,207 (521)	5,927 1,990
Llog banc derbyniadwy		272	508
Adfer grant		2,343	3,364
Incwm arall		6,688	5,698
<b>Cyfanswm Incwm</b>		<b>247,408</b>	<b>243,561</b>
<b>Gwariant grant</b>			
Ymrwymadau grant a wnaed	14	350,314	199,321
Llai ymrwymadau a ddi-rymwyd neu a ddiddymwyd	14	(13,877)	(17,090)
		<b>336,437</b>	<b>182,231</b>
<b>Costau gweinyddu</b>			
Costau cydnabyddiaeth ariannol gweithwyr	2	15,457	16,431
Costau cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r bwrdd	3	100	142
Taliadau gweithredu eraill	4	9,107	12,062
Costau Uno	6	-	2,534
Adolygiad Strwythurol	6	6,890	-
Dibrisiant	9	330	654
<b>Cyfanswm gwariant gweinyddol</b>	<b>5</b>	<b>31,884</b>	<b>31,823</b>
<b>Cyfanswm gwariant</b>		<b>368,321</b>	<b>214,054</b>
<b>(Diffyg)/Gwarged cyn trethi</b>		<b>(120,913)</b>	<b>29,507</b>
Trethiant	8	(52)	(125)
<b>(Diffyg)/Gwarged ar gyfer y cyfnod</b>		<b>(120,965)</b>	<b>29,382</b>
<b>Diffyg wrth gefn</b>			
A ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2005		(147,940)	(177,322)
(Diffyg)/Gwarged ar gyfer y cyfnod		(120,965)	29,382
<b>Diffyg wrth gefn ar 31 Mawrth 2006</b>		<b>(268,905)</b>	<b>(147,940)</b>

Nid oes gan y Gronfa Gymunedol unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai a nodir uchod ac o ganlyniad nid oes unrhyw ddatganiad ar wahân o enillion a cholledion cydnabyddedig wedi cael ei gyflwyno. Nid oes unrhyw weithgareddau y rhoddwyd terfyn iddynt.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 95 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Mantolen ar 31 Mawrth 2006

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
<b>Asedau sefydlog</b>			
Asedau sefydlog diriaethol	9	1,751	664
<b>Asedau cyfredol</b>			
Dyledwyr a rhagdaliadau	10	2,561	3,221
Arian yn y banc ac mewn llaw		4,510	9,866
Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	11	171,950	174,460
		<u>179,021</u>	<u>187,547</u>
<b>Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>			
Credydwyr	12	(5,651)	(6,023)
Grantiau a ymrwymwyd i'w talu	14	(239,060)	(169,049)
		<u>(244,711)</u>	<u>(175,072)</u>
<b>(Rhwymedigaethau)/asedau cyfredol net</b>		<u>(65,690)</u>	<u>12,475</u>
<b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>		<u>(63,939)</u>	<u>13,139</u>
<b>Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn</b>			
Credydwyr	12	(2)	(183)
Grantiau a ymrwymwyd i'w talu	14	(199,262)	(159,612)
<b>Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau</b>	13	<u>(5,702)</u>	<u>(1,284)</u>
<b>Cyfanswm (rhwymedigaethau) net</b>		<u>(268,905)</u>	<u>(147,940)</u>
<b>Cynrychiolwyd gan:</b>			
<b>Incwm a gadwyd</b>		<u>(268,905)</u>	<u>(147,940)</u>

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Gymunedol a gymeradwyodd y cyfrifon blynyddol ar 10 Tachwedd 2006.

**Stephen Dunmore**  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo y  
Gronfa Gymunedol

**Sir Clive Booth**  
Cadeirydd y Gronfa Gymunedol

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 95 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Llif Arian hyd at 31 Mawrth 2006

	Nodyn	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000
<b>Gweithgareddau gweithredu</b>			
Cronfeydd a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	11	240,615	272,781
Incwm arall		7,020	4,974
Adfer grantiau ac arian o ffynonellau eraill		2,343	3,364
Taliadau i gyflenwyr		(16,262)	(8,412)
Taliadau i ac ar ran gweithwyr		(11,011)	(16,128)
Taliadau i dderbynwyr grantiau		(226,791)	(253,430)
<b>Llif arian net o weithgareddau gweithredu</b>	<b>17</b>	<b>(4,086)</b>	<b>3,149</b>
<b>Ad-daliadau ar fuddsoddiadau a gwasanaethu arian</b>			
Llog banc a dderbyniwyd		272	508
<b>Gwariant cyfalaf</b>			
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol		(1,417)	(169)
<b>Trethiant</b>			
Treth a dalwyd ar log a dderbyniwyd		(125)	(80)
<b>(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian</b>		<b>(5,356)</b>	<b>3,408</b>
<b>Newid mewn cronfeydd o ganlyniad i lif arian</b>			
Balansau arian a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth		4,510	9,866
Llai balansau arian a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill		(9,866)	(6,458)
<b>Symudiad</b>		<b>(5,356)</b>	<b>3,408</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 80 i 95 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o'r polisiau cyfrifo

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisiad asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes trwy gyfeirio at eu cost gyfredol. Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys yn unol ag Adran 39(2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).\*

Er bod Cyfarwyddiadau Cyfrifon y Gronfa Gymunedol yn gofyn am gynnwys Asedau Sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes trwy gyfeirio at gostau cyfredol, ar gyfer 2005/06 nid yw'r Gronfa Gymunedol o'r farn bod y gwerthoedd hyn yn wahanol iawn i'r costau hanesyddol a nodir ar y Fantolen. Heb gyfyngu'r wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y maent yn briodol.

### 1.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes gweithredol. Gwnaed yr ymrwymïadau grant ar gyfer y dyfodol ar ôl ystyried gofynion arian derbynwyr y grantiau (gellir ymestyn y rhain dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried rhagolygon incwm a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth ystyried y farn hon am incwm y dyfodol mae'r Bwrdd yn cymryd fel mater polisi cyhoeddus, gweithrediad parhaus y Loteri a chynnal canran y Gronfa Gymunedol o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel y nodir yn adrannau 21 i 23 o'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

### 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyfran y balansau hyn sy'n briodol i'r Gronfa Gymunedol fel y nodir yn y cyfrifon, ac ar ddyddiad y Fantolen, mae wedi ei ardstio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel cyfran sydd ar gael i'w dosbarthu gan y Gronfa Gymunedol o ran ymrwymïadau cyfredol ac i'r dyfodol.

Nod y Gronfa Gymunedol yw lleihau ei balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i £127 miliwn erbyn Mawrth 2009, cyhyd â bod y Gronfa Gymunedol yn parhau i gael sicrwydd digonol na fydd hyn yn peryglu ymrwymïadau presennol nac yn cyfyngu'n afresymol ar ei gallu i wneud ymrwymïadau yn y dyfodol.

\* Gellir derbyn copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar 10 Mehefin 2002 drwy anfon cais ysgrifenedig at Cronfa Gymunedol, 1 Plough Place, Llundain, EC42 1DE

Mae'r targedau ar gyfer y tair blynedd fel a ganlyn:

- erbyn 31 Mawrth 2006 ceisio cael balansau o £140 miliwn yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol
- erbyn 31 Mawrth 2007 ceisio cael balansau o £106 miliwn yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol
- erbyn 31 Mawrth 2008 ceisio cael balansau o £94 miliwn yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae'r targedau hyn yn seiliedig ar ragolygon incwm oedd ar gael ar y pryd a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn caniatáu ar gyfer effaith y Loteri Olympaidd arfaethedig ac yn adlewyrchu gwariant ar Gyfarwyddiadau Polisi cyfredol a disgwylidig.

#### 1.4 Asedau sefydlog

Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu yn y Fantolen yn ôl eu gwerth cost hanesyddol yn hytrach nag yn ôl eu costau cyfredol, am nad ystyrir y rhain yn wahanol iawn. Caiff eitemau sy'n costio llai na £2,000 eu dileu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn y'u prynwyd. Nid yw'r Gronfa Gymunedol yn cyfalafu costau datblygu meddalwedd.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu prisio asedau ar sail llinell syth dros amcangyfrif o'u bywyd defnyddiol fel a ganlyn:

Gosodiadau a ffitiadau	Yr isaf o 4 blynedd neu'r hyd sy'n weddill ar y brydles lle y bo'n briodol
Offer swyddfa	4 blynedd
Offer TG	3 blynedd

#### 1.5 Cronfa bensiwn

Caiff gweithwyr eu cynnwys yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) sydd yn gynllun aml-gyflogwr heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio. Er bod y Cynllun yn gynllun â buddion wedi'u diffinio, y PCSPS sy'n atebol am dalu unrhyw fuddion yn y dyfodol. Mae'r Gronfa Gymunedol yn talu tâl am bob gweithiwr a gyfrifir ar sail cronol. Darperir buddion pensiwn trwy'r PCSPS. O 1 Hydref 2002, gall staff sy'n aelodau o'r cynllun fod yn un o dri chynllun statudol 'cyflog terfynol' â buddion wedi'u diffinio (clasurol, premiwm, a chlasurol plws). Gall aelodau newydd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o'r cynllun premiwn neu gallant ymuno â threfniant cyfranddeiliaid 'pryniant arian' o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Ceir y gwahaniaethau rhwng y cynlluniau ar y wefan [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer nifer fach o staff mae'r Gronfa Gymunedol yn gwneud cyfraniad o 15 y cant o'u cyflog ar gyfer y cynllun pensiwn preifat a phersonol o'u dewis. O 1996/97, yn dilyn cyngor y Trysorlys cafodd cyfradd y cyfraniad ar gyfer cynlluniau pensiwn personol newydd ei ostwng i 3 y cant.

#### 1.6 Gweithredu prydles

Telir costau gweithredu prydles i ddelir gan y Gronfa Gymunedol gan y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo ar sail llinell syth. Rhennir buddion cyfnodau di-rent ar bob prydles newydd dros y cyfnod i'r adolygiad rhent cyntaf ar sail llinell syth.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1.7 Ymrwymadau grant

Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gofyn am wahaniaethu rhwng ymrwymadau meddal ac ymrwymadau caled.

Diffinnir ymrwymadau caled fel y swm o grant sy'n daladwy dros fywyd cynllun y mae'r Gronfa Gymunedol wedi ysgrifennu cytundeb contract ar ei gyfer gyda'r ymgeisydd. Telir am ymrwymadau caled gan y cyfrif incwm a gwariant yn y flwyddyn y llofnodir y contractau. Dangosir ymrwymadau caled ar y Fantolen fel credydwr, gyda'r balans yn gostwng wrth i daliadau i dderbynwyr grant gael eu rhyddhau.

Diffinnir ymrwymadau meddal fel cytundeb mewn egwyddor gan y Gronfa Gymunedol i ariannu cynllun a chynnig grant i'r ymgeisydd, y mae'r ymgeisydd heb ei dderbyn yn ffurfiol eto. Dangosir y rhain fel nodyn i'r cyfrifon ond ni chânt eu trin fel rhan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

#### Grantiau wedi eu had-dalu a'u hadfer

Mae amodau grant y Gronfa Gymunedol yn caniatáu adfer ac ad-dalu grantiau a dalwyd. Gall hyn godi pan fydd deiliad y grant yn methu â chydymffurfio â'r telerau a'r amodau neu pan fydd y gwariant gwirioneddol gan y grantî yn syrthio islaw grant sydd wedi ei dalu yn seiliedig ar gostau wedi eu hamcangyfrif.

#### Trosglwyddiadau grant

Rhaid trosglwyddo grantiau pan fydd derbynwyr grantiau sydd eisoes yn bodoli yn newid eu cyfansoddiad yn ystod y flwyddyn. Gan fod y sefydliad newydd yn endyd cyfreithiol newydd rhaid diddymu'r hen grant ac mae'n ofynnol gwneud cais am grant newydd a'i ddyfarnu.

### 1.8 Asedau trydydd parti

Mae'r Gronfa Gymunedol yn geidwad ar asedau penodol sy'n perthyn i drydydd partion. Mae'r asedau hyn yn cynrychioli mantolenni banc o £8.5 miliwn a ddelir ar ran Dosbarthwyr Loteri eraill i ariannu dyfarniadau a wneir o dan y cynlluniau Arian i Bawb a'r rhaglen grant Ffrynt Cartref yn Ôl a weinyddir gan y Gronfa Gymunedol. Ni chydabyddir y rhain yn y cyfrifon gan nad oes gan y Gronfa Gymunedol unrhyw fudd uniongyrchol ynddynt.

### 1.9 Rheoli grant – cynlluniau ar y cyd

Lle mae'r Gronfa Gymunedol wedi ymuno â chynllun ar y cyd, fel y cânt eu diffinio yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, rhoddir cyfrif am ymrwymadau caled a wnaed trwy'r cynllun ar y cyd ar sail cyfran y Gronfa Gymunedol yn y cynllun. Caiff costau gweinyddu eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn ôl y swm a gronnwyd gan y Gronfa Gymunedol.

### 1.10 Dyrannu incwm a chostau

Caiff incwm a chostau a gronnir gan y Gronfa Loteri Fawr eu dyrannu rhwng y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol. Caiff incwm a chostau sydd i'w priodoli i Gronfa benodol eu dyrannu'n uniongyrchol. Caiff costau ar y cyd eu rhannu i bob Cronfa yn seiliedig ar fethodoleg ddyrannu briodol er enghraifft yn seiliedig ar gyfran incwm; niferoedd staff.

### 1.11 Cost dybiannol cyfalaf

O 1 Ebrill 2002 dileodd Drysorlys EM y gofyniad i gyfrifo cost dybiannol tâl cyfalaf ar asedau a ariennir gan y Loteri.

## 2. Niferoedd a chost staff

Caiff staff eu cyflogi naill ai gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd neu'r Gronfa Gymunedol o dan gontractau sy'n caniatáu iddynt ddarparu gwasanaethau i'r Gronfa arall. Caiff costau a niferoedd gweithwyr eu dyrannu i bob sefydliad yn seiliedig ar fethodoleg rhaniad a ddisgrifir yn nodyn 1.10.

Roedd costau gweithwyr, ac eithrio aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000
Tâl a chyflogau	11,321	13,037
Costau nawdd cymdeithasol	945	1,013
Costau pensiwn	1,911	1,592
Staff asiantaeth	1,280	789
	15,457	16,431

Mae'r costau hyn yn cynnwys £8,832 ar gyfer staff wedi eu secondio i sefydliadau eraill. Caiff adenillion o £8,832 eu cynnwys mewn incwm arall.

Caiff hawl cyflog a phensiwn uwch dîm rheoli'r Gronfa Gymunedol eu cynnwys uchod, datgelir manylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol.

Roedd nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a'r staff dros dro ar gyfartaledd yn gweithio i'r Gronfa Gymunedol yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006			Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005
	Nifer y staff dros dro ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)	Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)	Cyfanswm y staff ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)	Cyfanswm y staff ar gyfartal-edd (cyfwerth ag amser llawn)
Cynllunio a Pherfformiad	3	22	25	20
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	21	38	59	44
Polisi a Chysylltiadau Allanol	8	42	50	20
Gweithrediadau	30	161	191	283
Swyddfeydd y gwledydd	17	97	114	64
Dosbarthwyr eraill *	25	107	132	104
	104	467	571	535

\*Mae'r Gronfa Gymunedol yn cyflogi staff i brosesu ceisiadau a rheoli grantiau ar ran dosbarthwyr Loteri eraill o dan y cynlluniau Arian i Bawb a Ffrynt Cartref yn Ôl a rhaglen Gofal Plant y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 3.3. Gwybodaeth aelodau'r Bwrdd

Penodiad rhan-amser, dau ddiwrnod yr wythnos yw Cadeirydd Bwrdd y Gronfa Gymunedol. Mae taliadau i'r Cadeirydd (ac eithrio yswiriant gwladol cyflogwyr) fel a ganlyn:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005
	£	£
Diana Brittan hyd at 31 Mai 2004	-	29,412
Syr Clive Booth o 1 Mehefin 2004	18,504	18,238

Caiff holl Aelodau'r Bwrdd eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol am gyfnod o amser wedi ei ddiffinio. Mae gan Aelodau'r Bwrdd hawl i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am yr amser a dreulir ar weithgareddau'r Gronfa Gymunedol. Yn achos Aelodau'r Bwrdd a benodir i'r Gronfa Loteri Fawr ystyrir bod 50 y cant o'u hamser yn cael ei dreulio ar weithgareddau'r Gronfa Gymunedol. Mae'r gweithgareddau hyn, y gall Aelodau'r Bwrdd hawlio ffi ddyddiol o £210 (2004/05 £198) amdanynt, yn cynnwys cyfarfodydd yn swyddfeydd y Gronfa Gymunedol yn bennaf. Ni dderbyniodd unrhyw Aelodau o'r Bwrdd gyfraniadau tuag at bensiwn. £73,067 (2004/05 £82,927) oedd cyfanswm y taliadau (ac eithrio yswiriant gwladol cyflogwyr) a dalwyd i aelodau'r Bwrdd hyd at 31 Mawrth 2006, a dadansoddir hwy fel a ganlyn:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005
	£'000	£'000
Elaine Appelbee hyd at 31 Mai 2004	-	0.4
Steven Burkeman hyd at 31 Mai 2004	-	1.5
Dr Samuel Burnside o 15 Mehefin 2004	6.0	5.0
David Campbell o 1 Mehefin 2004	5.6	4.1
Jeff Carroll hyd at 31 Mai 2004	-	1.9
Paul Cavanagh	6.0	2.8
Tom Davies o 15 Mehefin 2004	4.2	3.3
Roland Doven o 1 Mehefin 2004	3.4	2.1
Yr Athro Briedge Gadd o 15 Mehefin 2004	5.1	4.3
John Gartside o 1 Mehefin 2004	4.6	2.4
Douglas Graham	3.0	6.9
Kay Hampton hyd at 31 Mai 2004	-	1.5
Taha Idris	5.0	4.2
Yr Athro James Kearney hyd at 31 Mai 2004	-	2.9
Dugald Mackie o 1 Mehefin 2004	2.1	2.6
Sheila Jane Malley hyd at 31 Mai 2004	-	3.3
Richard Martineau hyd at 31 Mai 2004	-	4.6
John Naylor o 1 Mehefin 2004	6.8	4.5
Esther O'Callaghan o 1 Mehefin 2004	0.8	1.8
Anna Southall o 1 Mehefin 2004	4.4	2.2
Dame Valerie Strachan (IDirprwy Gadeirydd)	8.8	10.0
Carol Tongue hyd at 31 Mai 2004	-	1.0
Huw Vaughan Thomas o 15 Mehefin 2004	3.8	2.4
Benjamin Whitaker hyd at 31 Mai 2004	-	3.6
Diana Whitworth o 1 Mehefin 2004	3.5	3.8

Mae'r Gronfa Gymunedol yn ad-dalu costau teithio a chynhalieth aelodau'r Bwrdd ac yn talu'r atebolrwydd treth ar y costau hyn.

#### 4. Taliadau gweithredu eraill

Mae'r canlynol wedi eu cynnwys mewn taliadau gweithredu eraill:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000		Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000	
Teithio a chostau				
Staff	550		688	
Aelodau'r bwrdd	99	649	78	766
Cydnabyddiaeth ariannol archwilwyr am waith archwilio		44		43
Taliadau gweithredu prydlesi		1,303		1,521
Costau eraill		7,111		9,732
		<u>9,107</u>		<u>12,062</u>

#### 5. Cyfanswm costau gweithredu

Dadansoddiad o wariant gweithredu

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000		Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000	
Gwneud grantiau effeithiol	27,026	85%	25,313	79%
Llywodraethu a gweinyddu	3,332	10%	5,305	17%
Cefnogi'r sector gwirfoddol	1,526	5%	1,205	4%
Cyfanswm y gwariant gweinyddol	<u>31,884</u>	<u>100%</u>	<u>31,823</u>	<u>100%</u>

**Gwneud grantiau effeithiol** yw'r gwaith sy'n ofynnol i gynnal rhaglenni grant a phrosesau gwneud penderfyniadau y Gronfa Gymunedol. Yn cynnwys costau'r swyddfeydd rhanbarthol a'r gwledydd, asesu ceisiadau, adolygu meysydd a blaenoriaethau rhaglen, rheoli a monitro dyfarniadau, y pwyllgorau rhanbarthol a'r gwledydd a'r systemau TG y mae eu hangen i gefnogi'r broses o wneud grantiau.

**Llywodraethu a gweinyddu** yw'r gwaith sy'n ofynnol i gynnal y Gronfa Gymunedol fel endyd cyfreithiol. Nid yw hyn yn cynnwys costau'r Bwrdd a Pwyllgorau nad ydynt yn gwneud grantiau, swyddfa'r Prif Weithredwr, archwilio mewnol a rhai agweddau ar yr adrannau gwasanaeth corfforaethol.

Mae **cefnogi'r sector gwirfoddol** yn cynnwys gwaith mentrau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau strategol sy'n ceisio datblygu cysylltiadau cryfach rhwng deiliaid grantiau sy'n gweithio mewn meysydd penodol a chynyddu effaith y Gronfa Gymunedol mewn ffyrdd fel fair share neu allgymorth, a gwaith swyddogion datblygu.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 6 Costau Uno/Adolygiad Strwythurol

Mae'r costau a gododd yn ystod uno Cronfa Gymunedol a Cronfa Cyfleoedd Newydd yn cynnwys:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000
Ymgynghoriad	-	277
Newidiadau TG	-	11
Taliadau terfynu	-	1,282
Ffioedd proffesiynol	-	45
Costau Eiddo	-	883
Arall	-	36
	<hr/>	<hr/>
	-	2,534
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

Mae'r Adolygiad Strwythurol, rhaglen o newid mawr i ailstrwythuro ac adleoli ein gweithgareddau gwneud grant a'n swyddogaethau gwasanaeth corfforaethol yn Lloegr, wedi cronni'r costau canlynol yn ystod 2005/06:

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000
Taliadau terfynu	5,280	-
Costau recriwtio a Sefydlu	269	-
Rhesymoli eiddo	1,211	-
Rheoli Prosiect	122	-
Arall	8	-
	<hr/>	<hr/>
	6,890	-
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

### 7. Dangosydd perfformiad ariannol

Nod y Gronfa Gymunedol yw cadw costau gweithredu islaw 10 y cant o'r incwm. Cyfrifir y dangosydd hwn ar sail net hy ac eithrio incwm a chostau'n ymwneud â gweithgareddau y codir tâl cost llawn amdanynt ar ddsbarthwyr eraill. Mae'r targed hwn yn dal i gael ei gyrraedd dros fywyd y Gronfa Gymunedol; mae costau gweithredu net yn 7.8 y cant o'r incwm (2004/05 7.6 y cant). Mewn blynyddoedd blaenorol mae'r Gronfa Gymunedol hefyd wedi ystyried costau gweithredu net fel y cant o'r incwm a dderbyniwyd yn y flwyddyn honno. Gan ddefnyddio'r sail hon y dangosydd perfformiad ariannol yw 10.5 y cant (2004/05 11 y cant).

### 8. Treth Gorfforaeth

Mae'r Gronfa Gymunedol yn talu treth gorfforaeth ar log banc a dderbynnir ar gyfradd effeithiol o 17.6 y cant (22 y cant y flwyddyn flaenorol). Y dreth sy'n daladwy yw £51,573 (2005 £125,206). Nid yw'r arian a ddelir ac a fuddsoddir gan Gronfa Ddsbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ran y Gronfa Gymunedol yn drethadwy.

## 9. Asedau sefydlog diriaethol

	Offer swyddfa £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Gosodiadau a ffitiadau £'000	Cyfanswm £'000
<b>Fel cost</b>				
Ar 1 Ebrill 2005	430	995	2,079	3,504
Ychwanegiadau	93	180	1,144	1,417
Gwerthiant	(171)	(97)	(48)	(316)
<b>Ar 31 Mawrth 2006</b>	<b>352</b>	<b>1,078</b>	<b>3,175</b>	<b>4,605</b>
<b>Dibrisiant</b>				
Ar 1 Ebrill 2005	413	894	1,533	2,840
Tâl ar gyfer y flwyddyn	35	74	221	330
Gwerthiant	(171)	(97)	(48)	(316)
<b>Ar 31 Mawrth 2006</b>	<b>277</b>	<b>871</b>	<b>1,706</b>	<b>2,854</b>
<b>Gwerth llyfr net</b>				
Ar 31 Mawrth 2006	75	207	1,469	1,751
Ar 31 Mawrth 2005	17	101	546	664

Mae'r holl welliannau lesddaliad ar eiddo lesddaliad byr lle mae'r prydles yn dod i ben mewn llai na 50 mlynedd.

## 10. Dyledwyr a rhagdaliadau

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Dyledwyr	1,673	604
Incwm a gronnwyd	297	2,005
Rhagdaliadau	591	612
	<b>2,561</b>	<b>3,221</b>

Wedi eu cynnwys yn y symiau uchod y mae'r balansau canlynol sy'n daladwy gan gyrff eraill y Llywodraeth:

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Symiau sy'n ddyledus gan gyrff eraill y Llywodraeth	1,686	2,040
Symiau sy'n ddyledus gan Awdurdodau Lleol	11	67

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 11. Balans a ddelir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

	£'000	£'000
Cost ar 1 Ebrill 2005		175,117
Dosbarthiad gan y Loteri Genedlaethol	230,419	
Incwm buddsoddi a enillwyd	8,207	
Arian wedi ei dynnu i lawr	(240,615)	
Gostyngiad net yn y balans		(1,989)
<b>Cost ar 31 Mawrth 2006</b>		<b>173,128</b>
Colled heb ei gwireddu ar fuddsoddiad		(1,178)
<b>Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2006</b>		<b>171,950</b>

Ar 31 Mawrth 2006 gwerth y farchnad ar fantolen y Gronfa Gymunedol a ddelir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd £171,950,343 (2004/05 £174,459,663).

Caiff y cronfeydd a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol eu rheoli gan y Comisiynwyr ar gyfer lleihau'r ddyled genedlaethol (a adwaenid yn flaenorol fel Comisiynwyr y Ddyled Genedlaethol). Derbyniodd y Gronfa Gymunedol 16.7 y cant o'r arian a dalwyd gan Camelot Group Plc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl didynnu'r costau oedd yn daladwy i'r gronfa gyfunol am gostau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth ymarfer ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf, costau'r rheoleiddiwr (Comisiwn y Loteri Genedlaethol) a chostau'r buddsoddwyr. Caiff cyfrif buddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ei hailbrisio cyn bob trafodyn, naill ai dderbyn neu dynnu i lawr, a chaiff y llog ei rannu yn unol â fformiwla yn seiliedig ar y balans a ddelir gan y corff fel cymhareb o gyfanswm y balans.

### 12. Credydwy'r symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Credydwy'r masnach	969	716
Credydwy'r eraill	490	453
Symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Cyfleoedd Newydd	3,153	3,601
Croniadau ac incwm wedi ei ohirio	987	1,128
Treth gorfforaeth	52	125
	<b>5,651</b>	<b>6,023</b>

Mae'r balansau canlynol sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi eu cynnwys yn y symiau uchod:

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Symiau sy'n ddyledus i gyrff eraill y Llywodraeth	3,272	3,653
Symiau sy'n ddyledus i Awdurdodau Lleol	40	276

### Credydwy'r symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Incwm wedi ei ohirio	2	183

### 13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Taliadau prydles na ellir eu hosgoi £'000	Cyfraniadau ymddeoliad cynnar £'000	Darpariaethau dileu swydd £'000	Cymorth diswyddiadau £'000	Cyfanswm y darpariaethau £'000
Wedi eu dwyn ymlaen ar 1 Ebrill 2005	385	443	456	-	1,284
Codwyd tâl o'r gwariant yn y flwyddyn	279	1,095	3,655	403	5,432
Taliadau a wnaed	(222)	(206)	(586)	-	(1,014)
Wedi eu dwyn ymlaen ar 31 Mawrth 2006	442	1,332	3,525	403	5,702

Yn ystod y flwyddyn ariannol gadawodd y Gronfa Gymunedol ei swyddfa yn Newcastle, sef Baron House, a phenderfynwyd gadael Edmund House, Birmingham ac Elizabeth House Warrington. Yn y tri eiddo hyn mae'r brydles yn mynnu fod y Gronfa Gymunedol yn atgyweirio adfeiliadau. Mae darpariaeth 2005/06 yn cynrychioli dadfeiliadau a chostau prydles na ellid eu hosgoi ar yr eiddo hyn. Disgwylir i'r darpariaethau hyn gael eu gwireddu yn 2006/07.

Fel rhan o'r Adolygiad Strwythurol

- ▶ Mae rhai staff cymwys penodol wedi cytuno i ymddeol yn gynnar. O ganlyniad i'r cytundebau hyn mae'r Gronfa Gymunedol o dan amodau contract i dalu cyfraniadau pensiwn penodol tan ddyddiad ymddeol statudol yr unigolion hyn. Mae amcangyfrif o gyfraniadau yn y dyfodol wedi cael ei ddarparu i staff a oedd wedi terfynu

trefniadau ymddeol yn gynnar cyn 31 Mawrth 2006.

- ▶ Mae swyddi penodol wedi cael eu nodi fel rhai nad oes eu hangen mwyach. Gwnaed darpariaeth ar gyfer amcangyfrif costau staff yn colli gwaith y mae'r Gronfa Gymunedol wedi bod yn ymgynghori â hwy cyn 31 Mawrth 2006 ond na thalwyd y setliad iddynt erbyn y dyddiad hwnnw. Gwneir taliadau colli gwaith yn unol â threfniadau a thelerau contract a nodir yn nhrefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSP).

Yn ystod 2005/06 codwyd tâl ar y ddarpariaeth a wnaed yn 2004/05 am daliadau yn erbyn y ddarpariaeth ar gyfer staff a wnaeth ymddeol yn gynnar neu ddileu swyddi fel rhan o'r uniad gweinyddol â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Disgwylir y caiff y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon ei gwireddu yn ystod 2006/07.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 14. Ymrwymadau grant

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
<b>Ymrwymadau Caled</b>		
Ymrwymadau caled wedi eu dwyn ymlaen	328,661	399,859
Ymrwymadau caled a wnaed	350,314	199,321
Ymrwymadau caled a ddi-rymwyd ac a ddiddymwyd	(13,877)	(17,090)
Ymrwymadau caled a fodlonwyd	(226,776)	(253,429)
Symudiad net mewn ymrwymadau caled	109,661	(71,198)
Ymrwymadau caled wedi eu dwyn ymlaen	438,322	328,661

#### Ymrwymadau caled yn heneiddio

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Yn ddyledus i'w talu o fewn blwyddyn	239,060	169,049
Yn ddyledus i'w talu yn ystod:		
2007/08 (2006/07)	131,831	104,207
2008/09 (2007/08)	59,560	40,727
2009/10 (2008/09)	7,453	12,350
2010/11 (2009/10)	418	2,328
Cyfanswm yr ymrwymadau	438,322	328,661

Mae ymrwymadau caled a wnaed ac a aeth heibio ac ymrwymadau caled a ddi-rymwyd ac a ddiddymwyd yn cynnwys £8,742,564 o drosglwyddiadau grant (2004/05 £12,352,258) gweler nodyn 1.7.

### 15. Ymrwymadau meddal

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
<b>Ymrwymadau Meddal</b>		
Ymrwymadau meddal wedi eu dwyn ymlaen	36,512	38,149
Ymrwymadau meddal a wnaed	336,292	198,873
Ymrwymadau meddal a ddi-rymwyd ac a ddiddymwyd	(1,089)	(1,189)
Ymrwymadau meddal a drosglwyddwyd i ymrwymadau caled	(350,314)	(199,321)
Ymrwymadau meddal wedi eu dwyn ymlaen	21,401	36,512

## 16. Cynlluniau ar y cyd

Wedi eu cynnwys o fewn ymrwymiadau caled y mae £10.3 miliwn (2004/05 £10.6 miliwn) o ymrwymiadau grant newydd a £1.5 miliwn (2004/05 £0.2 miliwn) o ymrwymiadau grant wedi eu dwyn ymlaen ar 31 Mawrth yn cynrychioli cyfraniad y Gronfa Gymunedol tuag at gynllun ar y cyd Arian i Bawb, Lloegr. Yn ystod 2005/06 cyfrannodd y Gronfa Gymunedol £10.2 miliwn at gyfanswm yr arian o £52.6 miliwn. Gweinyddir y cynllun hwn gan y Gronfa Gymunedol ar ran pawb sy'n rhan o'r cytundeb a chaiff cyfrifon memorandwm ar gyfer y cynllun eu cynnwys ar ddiwedd y cyfrifon hyn.

Wedi eu cynnwys o fewn ymrwymiadau caled y mae £0.2 miliwn (2004/05 £0.8 miliwn) o ymrwymiadau grant newydd a £DIM (2004/05 £190,882) ymrwymiadau grant wedi eu dwyn ymlaen ar 31 Mawrth yn cynrychioli cyfraniad y Gronfa Gymunedol i'r cynllun ar y cyd Ffrynt Cartref yn Ôl. Cyfrannodd y Gronfa Gymunedol £0.2 miliwn tuag at y cynllun a gafodd ei ddwyn ymlaen o danwariant blynyddoedd blaenorol.

## 17. Cysoni incwm a gwariant i lif arian net o weithgareddau gweithredu

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000
(Diffyg)/Gwarged cyn treth	(120,913)	29,507
Dibrisiant asedau sefydlog	330	654
Colled ar waredu asedau sefydlog	-	109
Incwm llog	(272)	(508)
(Diffyg)/Gwarged net o weithgareddau gweithredu	(120,855)	29,762
Gostyngiad mewn dyledwyr	660	824
Gostyngiad ym malans Cronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol (Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr	2,510	38,790
Cynnydd mewn darpariaethau	(480)	4,034
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau grant	4,418	938
	109,661	(71,199)
Arian net (allan)/i mewn o weithgareddau	(4,086)	3,149

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 18. Risgiau ariannol

Mae'n ofynnol i'r Gronfa Gymunedol ddatgelu effaith offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae'r Gronfa Gymunedol yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i rôl.

#### Risgiau hylifedd

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006, deilliodd £230.4 miliwn (93 y cant) o incwm y Gronfa Gymunedol o'r Loteri Genedlaethol. Deilliodd gweddill yr incwm o enillion buddsoddi o'r balans a ddelir gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £7.7 miliwn (3 y cant), ac o log banc ac incwm arall £9.3 miliwn (4 y cant).

Ar 31 Mawrth 2006 roedd gan y Gronfa Gymunedol rwymedigaethau net o £268.8 miliwn ac ymrwymadau meddal o £21.4 miliwn. Er bod y Gronfa Gymunedol wedi gwneud ymrwymadau uwch na'i hasedau, nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod y Gronfa Gymunedol yn wynebu risgiau hylifedd arwyddocaol am na fydd llawer o'r rhwymedigaethau hyn yn cael eu talu tan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol nesaf. Y rheswm am hyn yw na fydd y Gronfa Gymunedol ond yn caniatáu deiliaid grant i dynnu arian i lawr unwaith eu bod wedi profi eu hangen i dderbyn y gyfran nesaf o arian grant a ddyrennir iddynt. Oherwydd y gwahaniaeth amseru rhwng y dyddiad y mae deiliad y grant yn derbyn cynnig grant y Gronfa Gymunedol, a'r dyddiad y mae deiliad y grant yn tynnu'r arian hyn i lawr, anogir y Gronfa Gymunedol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i orymrwymo'r cronfeydd sydd ar gael.

£'000

#### Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2006

Gwerth y farchnad buddsoddiadau Cronfa	171,950
Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol	
Arian Parod	4,510
	<u>176,460</u>

#### Rhagolygon llif arian yn ystod 2006/2007

Incwm o'r Loteri Genedlaethol	212,950
Incwm arall	9,000
Taliadau cost gweinyddu	(23,310)
Taliadau grant	(236,120)
	<u>138,980</u>

#### Rhagolygon asedau hylifol ar 31 Mawrth 2007

Mae'r honiadau rhagolygon incwm yn seiliedig ar arweiniad a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r rhagolygon taliadau grant yn seiliedig ar ragolygon proffiliau tynnu grantiau i lawr a gyflwynwyd gan dderbynwyr grant ar adeg dyfarnu.

#### Risgiau cyfraddau llog

Caiiff asedau ariannol y Gronfa Gymunedol eu buddsoddi yng Nghronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel fel bondiau ac arian y llywodraeth. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad cronfeydd yng Nghronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol. Ar ddyddiad y Fantolen roedd gwerth y farchnad buddsoddiad yng Nghronfa Ddatblygu'r Loteri Genedlaethol yn £172.0 miliwn. Yn y flwyddyn yr elw ar y buddsoddiadau hyn oedd 4.7 y cant.

Mae balansau arian sy'n cael eu tynnu i lawr o'r Gronfa Gymunedol i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol mynediad ar unwaith oedd ar gyfartaledd â chyfradd llog o 3.4 y cant yn y flwyddyn. £4.5 miliwn oedd y balans arian ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa Gymunedol yn wynebu risgiau cyfraddau llog arwyddocaol ar ei balansau arian.

## Risg arian tramor

Nid yw'r Gronfa Gymunedol yn agored i unrhyw risgiau cyfnewid arian tramor.

## 19. Ymrwymadau ariannol

### Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredu

Ar 31 Mawrth 2006, roedd gan y Gronfa Gymunedol yr Ymrwymadau blynyddol canlynol o dan brydlesi gweithredu.

	Ceir ar brydles £'000	Tir ac adeiladau £'000	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Yn dod i ben mewn llai na blwyddyn	2	513	515	100
Yn dod i ben mewn 1-5 mlynedd	-	840	840	900
Yn dod i ben mewn dros 5 mlynedd	-	1,774	1,774	626
	<u>2</u>	<u>3,127</u>	<u>3,129</u>	<u>1,626</u>

## 20. Cynllun pensiwn

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSP). O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun statudol "cyflog terfynol" â buddion wedi eu diffinio (clasurol, premiwm a clasurol plws). Ni chaiff y Cynlluniau eu hariannu a thelir costau buddion gan arian sy'n cael ei bleidleisio gan y Senedd bob blwyddyn.

Mae pensiynau a delir o dan clasurol, premiwm a clasurol plws yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Gall aelodau newydd o 1 Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi a phremiwm neu ymuno â threfniant cyfranddeiliaid "pryniant arian" o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan gyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

## Nodiadau i'r Cyfrifon

Gosodir cyfraniadau gweithwyr ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer clasurol a 3.5 y cant ar gyfer premiwn a clasurol plws. Mae buddion mewn clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn tair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premiwm, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Mae clasurol plws yn ei hanfod yn amrywiad ar premiwn, ond gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi ei gyfrifo yn fras fel clasurol.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oed yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os byddant yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain â hyd at 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost budd-dal risg (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd).

Ceir mwy o fanylion am y trefniadau CSP ar y wefan [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)

Ar gyfer 2005/06, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £1,911,472 yn daladwy i'r PCSPS (2004/05 £1,592,000) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 16.2 y cant - 24.6 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (fel y nodir isod). Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu hadolygu bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun llawn gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfraniad hyn yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt Gronni, nid pan eir i gostau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun. Mae cyfraddau ar gyfer 2005/06 wedi cynyddu yn seiliedig ar argymhellion gan Actiwari'r Llywodraeth.

Bandiau	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006
£17,500 ac yn is	16.2%
£17,501-£35,000	18.6%
£35,001-£60,500	22.3%
£60,501 a throsodd	24.6%

Bandiau	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005
£17,500 ac yn is	12%
£17,501-£36,000	13.5%
£36,001-£62,000	16.5%
£62,001 a throsodd	18.5%

### 21. Taliadau arbennig a cholledion

Mae taliadau arbennig yn digwydd lle y gwnaed grant trwy amryfusedd i sefydliad nad yw'n gymwys yn ôl y gyfraith ond lle mae'r grant o fewn bwriad eang deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiect yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2006 roedd cyfanswm taliadau arbennig yn £17,963 (£490,159 yn y flwyddyn ganlynol).

Mae colledion yn digwydd pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion y prosiect wedi eu bodloni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2006 roedd cyfanswm y colledion yn £831,771 (£1,242,325 yn y flwyddyn flaenorol). Roedd colledion dros £100,000 fel a ganlyn:

**Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006**  
£

Lleng Brydeinig Frenhinol yr Alban (Cangen Kirkintilloch)	113,294
Canolfan Bibini ar gyfer Pobl Ifanc	116,520
	229,814

Yn ogystal o ganlyniad i'r ymchwiliad i amheuaeth o dwyll aml-geisiadau, mae £1,004,816 yn ymwneud â chyfran y Gronfa Gymunedol ar y rhaglenni Arian i Bawb a £510,446 yn ymwneud â 9 o grantiau a ddyfarnwyd trwy raglenni grant eraill y Gronfa Gymunedol wedi cael eu dileu. Ceir mwy o wybodaeth yn y Datganiad o Reolaeth Fewnol.

Roedd un golled dros £100,000; nid ydym yn gallu datgelu manylion am y gall hyn fod yn niweidiol i weithredu gan yr heddlu sydd ar y gweill.

## 22. Trafodion partion cysylltiedig

Mae'r Gronfa Gymunedol yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddur gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ystyrir bod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Gronfa Gymunedol wedi cael amryw drafodion o bwys gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chyrrff eraill lle mae'r Adran hon yn cael ei hystyried yn Adran noddur: y Gronfa Cyfleoedd Newydd, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Sport England.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa Gymunedol nifer o drafodion ag Adrannau'r Llywodraeth a chyrrff sy'n ystyried adrannau eraill y Llywodraeth fel eu hadran noddur.

- ▶ Y Cyngorau Chwaraeon yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- ▶ Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn glynu wrth god ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Byrddau cyrrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a threfn, mae'r Gronfa Gymunedol yn cadw cofrestr o fuddiannau mewn ceisiadau grant a wneir i'r Gronfa Gymunedol a pherthnasoedd masnachol â'r Gronfa Gymunedol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd, ar gyfer cadeiryddion ac aelodau ei Bwyllgorau Dyfarniadau Rhanbarthol, ac ar gyfer yr holl staff. Lle cymerir unrhyw benderfyniadau gan bwyllgorau a fyddai'n rhesymol yn cael eu hystyried fel rhan sy'n achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf ynghylch grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau o'r cychwyn bod y datgeliad yn cael ei wneud a bod yr aelod yn gadael tra bod unrhyw drafodaeth ynghylch yr eitem berthnasol yn cael ei chynnal. Mae gweithdrefnau'r Gronfa Gymunedol hefyd yn sicrhau nad yw swyddogion grant yn ymwneud â cheisiadau prosesu y byddai ganddynt ddiddordeb ynddynt.

## Arian i Bawb Lloegr

Cyfrifon memorandwm heb eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006

## Incwm a Gwariant

	Nodyn	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 £'000
<b>Incwm</b>					
Cyfraniadau gan bartneriaid					
Arian i Bawb Lloegr:					
Y Gronfa Gymunedol		10,784		11,253	
Cyngor Celfyddydau Lloegr		6,183		6,433	
Cronfa Dreftadaeth y Loteri		3,931		3,028	
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd		28,407		11,278	
Sport England		5,889		6,120	
Trethiant tybiannol		31	55,225	44	38,156
Llog a dderbyniwyd			164		230
Ad-daliadau grant			952		881
<b>Cyfanswm Incwm</b>			<b>56,341</b>		<b>39,267</b>
<b>Gwariant</b>					
Ymrwymadau grant a wnaed yn y flwyddyn	5	52,702		35,990	
llai ymrwymadau a ddi-rymwyd neu a ddiddymwyd	5	(194)	52,508	(103)	35,887
Costau staff	2	1,857		1,786	
Costau gweithredu eraill	3	1,945	3,802	1,550	3,336
<b>Cyfanswm gwariant</b>			<b>56,310</b>		<b>39,223</b>
Gwarged cyn trethiant			31		44
Trethiant tybiannol	4		31		44
Gwarged/diffyg ar gyfer y cyfnod			0		0
<b>Gwarged/diffyg wrth gefn</b>					
Wedi ei ddwyn ymlaen ar 1 Ebrill 2005			0		0
Diffyg ar gyfer y cyfnod			0		0
Diffyg wrth gefn ar 31 Mawrth 2006			0		0

Arian i Bawb Lloegr  
Cyfrifon memorandwm heb eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn a  
ddaeth i ben 31 Mawrth 2006

### Mantolen ar 31 Mawrth 2006

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
<b>Asedau Cyfredol</b>					
Taliadau ymlaen llaw i bartneriaid Micro grantiau					60
Balansau yn ddyledus gan bartneriaid					
Cronfa Gymunedol		1,365		0	
Cyngor Celfyddydau Lloegr		89		0	
Cronfa Dreftadaeth y Loteri		92		0	
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd		4,108		0	
Sport England		151	5,805	0	0
arian yn y banc ac mewn llaw			1,912		2,943
			<u>7,717</u>		<u>3,003</u>
<b>Credydwy'r yn ddyledus o fewn blwyddyn</b>					
Yn ddyledus i bartneriaid Micro grantiau			4		
Balansau yn ddyledus i bartneriaid					
Y Gronfa Gymunedol		0		942	
Cyngor Celfyddydau Lloegr		0		248	
Cronfa Dreftadaeth y Loteri		0		129	
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd		0		896	
Sport England		0	0	135	2,350
Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu	5		7,682		609
credydwy'r eraill			31		44
			<u>7,717</u>		<u>3,003</u>
<b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau</b>					
Cynrychiolwyd gan			<u>0</u>		<u>0</u>
Gwarged/diffyg wrth gefn			<u>0</u>		<u>0</u>

## Arian i Bawb Lloegr

Cyfrifon memorandwm heb eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006

## Nodiadau

### 1 Cyllideb ar gyfer dyfarniadau grant

Mae'r rhaglen Arian i Bawb Lloegr yn gynllun wedi ei ariannu ar y cyd rhwng y Gronfa Loteri Fawr (enw gweithredu ar y cyd y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd), Cyngor Celfyddydau Lloegr, Sport England a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Y gyllideb ariannu ar gyfer y rhaglen oedd.

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Y Gronfa Gymunedol	10,278	10,875
Cyngor Celfyddydau Lloegr	5,886	6,200
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	3,735	2,900
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd	27,094	10,900
Sport England	5,607	5,900
	<u>52,600</u>	<u>36,775</u>

### 2 Costau staff

Y costau staffio cyfun a gronnwyd gan y Gronfa Gymunedol wrth gyflwyno rhaglen Arian i Bawb Lloegr yn ystod y cyfnod oedd.

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Tâl a chyflogau	1,302	1,445
Costau nawdd cymdeithasol	98	106
Costau pensiwn eraill	222	180
Staff asiantaeth	235	55
	<u>1,857</u>	<u>1,786</u>

Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gynllun Arian i Bawb Lloegr oedd 83 (2005 74)

### 3 Costau gweithredu eraill

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Teithio a chostau	48	76
Llety	317	416
Cyfathrebu	481	396
Costau gweinyddu	1,099	662
	<u>1,945</u>	<u>1,550</u>

### 4 Trethiant

Mae treth gorfforaeth yn ddyledus ar log banc a dderbynnir gan bob Dosbarthwr. Mae'r cyfrifiad tybiannol a godir yn y cyfrifon hyn yn ystyried Arian i Bawb fel endyd unigol. Cyfrifir treth ar gyfradd effeithiol o 19 y cant (2005/06 19 y cant).

### 5 Ymrwymadau caled

	Ar 31 Mawrth 2006 £'000	Ar 31 Mawrth 2005 £'000
Ymrwymadau caled wedi eu dwyn ymlaen	609	219
Ymrwymadau caled a wnaed yn y flwyddyn	52,702	35,990
Ymrwymadau a ddi-rymwyd ac a ddiddymwyd	(194)	(103)
Ymrwymadau caled a gyflawnwyd	(45,435)	(35,497)
Ymrwymadau caled a ddygwyd ymlaen	<u>7,682</u>	<u>609</u>

Bydd yr holl daliadau'n ddyledus o fewn blwyddyn

Nid oes unrhyw ymrwymadau meddal yn rhaglen Arian i Bawb Lloegr, mae derbynwyr grant yn cadarnhau eu bod yn derbyn telerau ac amodau'r grant fel rhan o'u cais.

## Adran chwech

### Ein cefndir statudol

Y Gronfa Gymunedol yw enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol. Cafodd ei sefydlu fel Corff Cyhoeddus Anadrannol gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. Mae'r Ddeddf yn nodi cyfran yr incwm o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i'w derbyn ac mae'n rheoleiddio maint y Bwrdd a phenodi pwyllgorau yn gyffredinol ac yn benodol ar gyfer gwneud grantiau ym mhedair gwlad y DU.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol Dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cael y pŵer yn unol â'r Ddeddf i roi Cyfarwyddiadau ynghylch materion i'w hystyried wrth wneud grantiau a'r amodau ar gyfer dosbarthu arian. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Gyfarwyddiadau Polisi a Chyfarwyddiadau Ariannol yn 1995. Cafodd y ddau eu diwygio ym mis Chwefror 1999 a chafodd y Cyfarwyddiadau Ariannol eu diwygio ymhellach yn Awst 2002. Yn 2005, yn dilyn ymgynghoriadau rhwng y Llywodraeth a'r Gronfa Loteri Fawr, cytunwyd ar set o themâu, canlyniadau a blaenoriaethau, a alluogodd datblygu polisiâu a rhaglenni ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr trwy drefniadau uniad gweinyddol a ddaeth â'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd at ei gilydd fel y Gronfa Loteri Fawr. Yn ystod 2005-06, cyhoeddwyd Cyfarwyddiadau Polisi newydd i alluogi'r Gronfa Gymunedol i gefnogi'r ystod newydd o raglenni ariannu o fewn ei phwerau cyfreithiol presennol, yn arbennig y gallu i wneud grantiau trawsnewidiol. Mae'r Cyfarwyddiadau Polisi hyn yn Gyfarwyddiadau interim sy'n berthnasol i'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn y cyfnod cyn i'r Gronfa Loteri Fawr gael ei chreu yn gyfreithiol.

Mae'r Gronfa Gymunedol wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn trwy gydol blwyddyn ariannol 2005-06.

### Cyfarwyddiadau Ariannol

Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd i Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol (enw cyfreithiol y Gronfa Gymunedol) o dan Adran 26(3), (3A) a (4) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).

- (i) Bydd Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol ("y Bwrdd") yn cydymffurfio â'r gofynion a geir yn y Datganiad o Ofynion Ariannol sydd ynghlwm fel Atodiad i'r Cyfarwyddiadau hyn wrth gynnal ei swyddogaethau o dan adran 25 Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 ("Deddf 1998"). Lle bynnag y nodir yn yr Atodiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Bwrdd gael caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn cynnal gweithgareddau penodol.
- (ii) Bydd y Bwrdd yn dyfeisio ac yn glynu wrth weithdrefn ar gyfer ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl, a allai godi wrth i'r Bwrdd, neu aelodau unigol o'r Bwrdd, werthuso cais. Dylai'r weithdrefn hon, ynghyd â datganiad yn cadarnhau'r trefniadau a weithredwyd, gael ei rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("yr Ysgrifennydd Gwladol") cyn y dosberthir unrhyw arian o dan adran 25 y Ddeddf, ac wedi hynny ar ddechrau bob blwyddyn ariannol.

Llofnodwyd gan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ACB Ramsay, Pennaeth Grŵp yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cydymffurfiwyd â'r Cyfarwyddiadau fel a ganlyn:

- (i) Rydym wedi gweithredu gweithdrefnau ar draws y sefydliad i sicrhau bod gofynion y Datganiad o Ofynion Ariannol yn cael eu dilyn. Rydym yn cynnal gwasanaeth archwilio mewnol i wirio ar sail samplu bod yr holl swyddogion a'r adrannau yn dilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, ac i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dogfennu a'u lledaenu yn gywir. Gellir cael y Datganiad llawn o'r Gofynion Ariannol gan Gyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad y Gronfa Loteri Fawr.
- (ii) Rydym yn cadw cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd, Aelodau Pwyllgorau Rhanbarthol yn Lloegr, aelodau cydetholedig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r holl staff. Lle gwneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor a allai o bosibl achosi gwrthdaro buddiannau, mae Cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau y gwneir y datgeliad ac mae'r aelod o'r pwyllgor yn gadael yr ystafell tra bod yr eitem berthnasol yn cael ei thrafod. Mae gweithdrefnau hefyd yn eu lle i atal unrhyw aelod o staff rhag asesu ffurflen gais gan sefydliad y maent yn gysylltiedig ag ef. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cael ei hysbysu bob blwyddyn ynghylch gweithredu'r gweithdrefnau hyn.

## Cyfarwyddiadau Polisi

Mae'r Gronfa Gymunedol yn gorff cyhoeddus anadrannol ac felly mae'n gweithredu yn unol â Chyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddir gan ei hadran noddi, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Cyfarwyddiadau Polisi yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r Gronfa Gymunedol gydymffurfio â hwy. Cânt eu hadolygu o bryd i'w gilydd; roedd y Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 1999 mewn grym yn ystod 2005/06.

Ceir deg o gyfarwyddiadau. Nodir y rhain isod gyda nodyn ynglŷn â sut rydym yn cydymffurfio â hwy.

- A. *Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu at ddibenion elusennol (p'un a ydynt yn elusennol yn ôl y gyfraith ai peidio), dibenion ewyllysgar neu ddyngarol yn unig.*

Mae'r holl ddyfarniadau a wneir gan y Gronfa Gymunedol yn mynd i sefydliadau elusennol, dyngarol neu ewyllysgar, sy'n cael eu gwirio am gymhwyster. Mae'r rhain yn cynnwys elusennau sydd wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban a'r rheiny a gydnabyddir at ddibenion treth gan Gyllid y Wlad yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n rhaid i sefydliadau dyngarol ac ewyllysgar feddu ar nodweddion elusen i fodloni'r prawf cyfreithiol, h.y., mae'n rhaid nad oes ganddynt unrhyw beth sydd yn erbyn cysyniad elusen, ac mae'n rhaid iddynt weithredu o safbwynt anhunanol, er budd y cyhoedd ac nid er budd preifat neu gilyddol.

- B.** *Yr angen i sicrhau bod y Bwrdd, o ran y polisïau y mae'n eu mabwysiadu o bryd i'w gilydd ac o ystyried ei asesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau a gallai fod wedi eu nodi yn ei strategaeth, ac yn cymryd camau rhesymol i gyhoeddi ar hyd a lled fod grantiau ar gael, yn llwyddo i ddosbarthu arian dros amser:*
- C.** *i) i ddosbarthiad gweddol eang o dderbynwyr, gan gynnwys sefydliadau bach a'r sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig; ac*  
*ii) ar draws ystod weddol eang o weithgarwch elusennol (p'un ai'n elusennol ai peidio yn ôl y gyfraith), gweithgarwch ewyllysgar a dyngarol.*
- D.** *Yr angen i ystyried o'r cychwyn:*  
*i) buddiannau'r DU gyfan;*  
*ii) buddiannau gwahanol rannau o'r DU; a*  
*iii) maint cymharol y boblogaeth, a ffactorau economaidd-gymdeithasol priodol sy'n berthnasol i rannau gwahanol o'r DU; ac, yn ogystal, ystyried buddiannau sefydliadau â chanolfan yn y DU ac sy'n gweithio dramor, a dosbarthu grantiau yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn.*

Rydym yn cymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi ein rhaglenni grant. Mae ein rhaglenni grant wedi eu cynllunio i alluogi ystod eang o ymgeiswyr posibl i gyflwyno ceisiadau grant. Mae cyfraniad y Gronfa Gymunedol i'r Rhaglen Arian i Bawb wedi ei gynllunio i sicrhau bod gan sefydliadau llai, yn ogystal â rhai lleol, y cyfle i wneud cais am grantiau untro o hyd at £5,000 mewn ffordd syml. Mae datblygu a gwaith cyhoeddusrwydd yn helpu i sicrhau ein bod yn cefnogi ystod eang o weithgarwch o fewn ein rhaglenni a'n strategaeth ddiffiniedig.

Mae Pwyllgorau dosbarthu grantiau yn sicrhau bod buddiannau rhannau gwahanol o'r DU a'r DU fel cyfanrwydd, a sefydliadau wedi eu lleoli yn y DU ac yn gweithio dramor yn cael eu cynrychioli wrth i ni ddosbarthu grantiau. Mae Pwyllgorau'r Gwledydd ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r naw Pwyllgor Rhanbarthol yn Lloegr yn delio â grantiau yn eu hardaloedd hwy. Ers tymor yr Hydref 2002 mae'r Pwyllgor Grantiau Strategol wedi dosbarthu grantiau o dan y Rhaglen Grantiau Strategol ar gyfer prosiectau sy'n elwa mwy na dau ranbarth yn Lloegr a hyd at y pedair gwlad yn y DU, ar gyfer grantiau ymchwil a rhyngwladol. Cyn hynny dosbarthodd Pwyllgor Lloegr grantiau ar draws Lloegr ac roedd cyn-Bwyllgor y DU yn gyfrifol am ddosbarthu grantiau ar draws y DU, grantiau ymchwil a rhyngwladol.

Mae'r gyllideb ar gyfer dosbarthu grantiau yn cael ei dyrannu rhwng gwledydd y DU a naw rhanbarth Lloegr ar sail y boblogaeth wedi ei bwysoli gan ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n ystyried angen yn y gwledydd a'r rhanbarthau gwahanol. Ceir dyraniadau ar wahân ar gyfer y Rhaglenni Pwyllgor Grantiau Strategol.

## Adran chwech

### E. *Anghenion plant a phobl ifanc.*

Yn ystod 2005/06, rhoddwyd grantiau gwerth o leiaf £65 miliwn oedd o fudd i blant a phobl ifanc, trwy ein holl raglenni grant.

### F. *Yr angen i ddatblygu amcanion datblygu cynaliadwy.*

Mae datblygu cynaliadwy yn ffactor pwysig wrth i ni ddsbarthu grantiau ac mae ei egwyddorion wedi cael eu cymhwyso mewn sawl ffordd trwy ein rhaglenni a'n harferion grant. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i adeiladu ar waith blaenorol ei sefydliadau etifeddiaeth a datblygu ei hymagweddau tuag at ddatblygu cynaliadwy wrth ariannu a'r ffordd y mae'n gwneud ei gwaith. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn ddiweddar wedi gwneud darn o ymchwil ar ran y Gronfa Loteri Fawr i asesu'r lefel y mae datblygu cynaliadwy wedi cael ei ymgorffori i brosesau gwneud ceisiadau, asesu a gwerthuso'r Gronfa Gymunedol, y Gronfa Cyfleoedd Newydd, a'r Gronfa Loteri Fawr i ganfod meysydd arfer da a chyfleoedd ar gyfer gwella. Bydd hyn yn llywio datblygiad ein rhaglenni a'n polisiau i'r dyfodol.

### G. *Yr angen i osod terfynau amser penodol ar y cyfnodau o ran pa grantiau sy'n daladwy, boed ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.*

Mae grantiau ar y cyfan yn cael eu gwneud ar gyfer hyd at dair blynedd (pum mlynedd yn achos prosiectau tramor). Mae sefydliadau sy'n derbyn grantiau wedi gallu ailymgeisio am grant datblygu am hyd at dair blynedd arall, er bod yr ymgeiswyr hyn yn cael eu hasesu mewn cystadleuaeth â phrosiectau newydd. Mewn achosion eithriadol, mae grantiau wedi cael eu gwneud am drydydd cyfnod o dair blynedd. Caeodd pob rhaglen grant y Gronfa Gymunedol i geisiadau ar 31 Mai 2005.

### H. *Yr angen:*

- i) *ym mhob achos i ymgeiswyr arddangos hyfywedd ariannol y prosiect ar gyfer cyfnod y grant;*
- ii) *lle ceisir arian cyfalaf, ar gyfer cynllun busnes clir sy'n ymgorffori darpariaethau y tu hwnt i gyfnod y grant ar gyfer costau rhedeg a chynnal cysylltiedig;*  
*ac*
- iii) *mewn achosion eraill, ystyried a yw arian arall yn debygol o fod ar gael i fodloni unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau'r dyfarniad Loteri, gan ystyried maint a natur y prosiect, ac i arian Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywedd lle bynnag y bo'n bosibl.*

Caiff y materion hyn eu cynnwys yn ein gweithdrefnau asesu ac arweiniad i ymgeiswyr.

- I. *Dymunoldeb gweithio gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys dosbarthwyr eraill, lle mae hwn yn ddull effeithiol o gyflwyno elfennau o'i strategaeth.*

Trwy drefniadau'r Gronfa Loteri Fawr, mae'r Gronfa Gymunedol yn gweithio mewn cydweithrediad â chyrff dosbarthu eraill ar nifer o faterion cyffredin, gan sicrhau ein bod yn parhau i wella ein polisiau a'n gweithdrefnau yn unol â'r argymhellion a nodir yn Nogfen Penderfyniad Gorffennaf 2003 yr Ysgrifennydd Gwladol ar arian Loteri.

- J. *Yr angen i sicrhau bod ei bwerau i ofyn am geisiadau o dan Adran 25(2A) (Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 fel y'i diwygiwyd) yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â chanlyn amcanion strategol.*

Rhodddwyd ail Gynllun Strategol y Gronfa Gymunedol gerbron y Senedd ar 15 Ebrill 2002. Mae hwn yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwneud grantiau a'r ffordd y caiff y rhain eu cymhwyso ym mhob gwlad yn y DU ac ym mhob rhanbarth yn Lloegr. Caiff pwerau erfyn sydd ar gael i'r Gronfa Gymunedol eu defnyddio os yw'n ofynnol gan y Cynllun Strategol ar gyfer gwneud grantiau ac er budd ymchwil.

- K. *Yr angen i sicrhau bod ganddo'r fath wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, yn cynnwys cyngor arbenigwyr annibynnol lle bo angen.*

Mae'r ffurflenni cais am grant ar gyfer pob rhaglen y Gronfa Gymunedol yn casglu gwybodaeth gan yr ymgeiswyr a'u prosiectau, sydd wedyn yn cael eu hasesu yn unol â'n harweiniad a'n gweithdrefnau er mwyn gwneud penderfyniadau.

Rydym yn ceisio cyngor arbenigol lle bo angen (er enghraifft ar ymchwil feddygol ac ymchwil gymdeithasol ehangach) i gefnogi ein proses o wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn cael cyngor gan gynghorwyr eraill os yw'r ceisiadau grant yn gofyn am hynny (er enghraifft, cyngor ariannol arbenigol).

## Cyfarwyddiadau Polisi Newydd

Ym mis Tachwedd 2005 cyhoeddwyd cyfarwyddiadau polisi newydd i'r Gronfa Gymunedol. Nodir y rhain isod.

## Cyfarwyddiadau Cyffredinol

Bydd y Cronfeydd yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r personau, y dibenion a'r amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian iddynt o dan adran 25(1):

- A. Yr angen i sicrhau fod arian a ddsberthir o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac na fwriedir hwy'n bennaf ar gyfer budd personol.
- B. Yr angen i sicrhau bod arian yn cael ei ddsbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.
- C. Yr angen i sicrhau bod y Cronfeydd yn llwyddo dros amser i ddsbarthu arian i brosiectau ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig.
- D. Yr angen i fod yn arloesol a chymryd risgiau wrth ddsbarthu arian o dan adran 25(1) mewn cydbwysedd â'r angen i reoli risg mewn ffordd sy'n gymesur â'r math o brosiect a'r ymgeisydd.

## Adran chwech

- E.** Yr angen i sicrhau bod y Cronfeydd, gan ystyried eu hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y maent wedi eu nodi yn eu strategaethau, yn llwyddo dros amser i ddsbarthu arian i ystod weddol o eang o dderbynwyr, yn cynnwys sefydliadau bach, y sefydliadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a sefydliadau â chanolfan yn y Deyrnas Unedig ac sy'n gweithio dramor.
- F.** Yr angen i sicrhau bod y Cronfeydd yn llwyddo dros amser i ddsbarthu arian yn rhesymol o gyfartal rhwng y gwariant ar neu mewn cysylltiad â:
- (i) hyrwyddo dysgu cymunedol er mwyn creu cyfleoedd
  - (ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a
  - (iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.
- G.** Anghenion plant a phobl ifanc.
- H.** Yr angen i ddatblygu amcanion datblygu cynaliadwy ymhellach.
- I.** Yr angen i osod terfynau amser penodol ar y cyfnodau o ran pa grantiau sy'n daladwy, p'un ai ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.
- J.** Yr angen:
- (i) ym mhob achos, i ymgeiswyr arddangos hyfywedd ariannol y prosiect ar gyfer cyfnod y grant;
  - (ii) lle ceisir arian cyfalaf:
    - (a) ar gyfer cynllun busnes clir sy'n ymgorffori'r angen i adnoddau fod ar gael i fodloni unrhyw gostau rhedeg neu gynnal sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; ac
    - (b) i sicrhau bod gwerthusiad prosiect a phroses reoli ar gyfer prosiectau mawr yn cyfateb i rai Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.
  - (iii) mewn achosion eraill, i ystyried a yw arian arall yn debygol o fod ar gael i fodloni unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau'r dyfarniad Loteri, gan ystyried maint a natur y prosiect, ac i arian Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at hyfywedd lle bynnag y bo'n bosibl.
- K.** Dymunoldeb gweithio gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys dosbarthwyr eraill, lle mae hwn yn ddull effeithiol o gyflwyno elfennau o'u strategaethau.
- L.** Yr angen i sicrhau bod gan y Cronfeydd y wybodaeth y maent yn ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, yn cynnwys cyngor arbenigol annibynnol lle bo angen.
- M.** Yr angen i ofyn am elfen o arian partneriaeth a/neu gyfraniadau o fath arall o ffynonellau sy'n gymesur â gallu rhesymol mathau gwahanol o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd arbennig i gael y fath gymorth.

- N.** Yr angen i gynnwys amod ym mhob grant i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.
- O.** Yr angen i gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau, gosod blaenoriaethau a gwneud grantiau.

Bydd Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn ystyried y materion canlynol wrth bennu i bwy, ar gyfer pa ddibenion ac amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

- A.** yr angen i hyrwyddo dysgu cymunedol er mwyn creu cyfleoedd;
- B.** yr angen i hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a'r
- C.** angen i hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

### Grantiau Trawsnewidiol

Mewn perthynas â'r cynllun grantiau trawsnewidiol ar y cyd, bydd y Cronfeydd yn ystyried y materion canlynol wrth bennu'r personau, y dibenion a'r amodau y bydd y Cronfeydd yn dosbarthu unrhyw arian o dan adran 25(1):

- A.** Yr angen i arian gael ei ddsbarthu at ddibenion gwariant cyfalaf ar brosiectau ac i gael eu dosbarthu fel arall yn unig lle bo'r arian:
  - (i) yn cael ei ddsbarthu at ddibenion gwaddolion neu ar ffurf grantiau refeniw lle:
    - (a) mae'r fath waddolion neu grantiau o'r fath yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf, mewn perthynas â'r hwn y mae arian wedi'i ddsbarthu neu y bwriedir gwneud hynny; ac

(b) y mae gwaddolion neu grantiau o'r fath yn cefnogi cyflwyno canlyniadau'r brosiect, yn cynyddu hygyrchedd, yn lleihau rhwystrau i fynediad ac yn sicrhau bod y fath brosiectau yn gynaliadwy; neu

(ii) yn cael ei ddsbarthu ar gyfer arian datblygu i brosiectau sydd wedi cael eu hasesu'n addas ar gyfer arian fel hyn.

- B.** Yr angen i drawsnewid ac adfywio cymunedau a'r amgylchedd ffisegol.
- C.** Yr angen i'r cyhoedd yn gyffredinol gymryd rhan yn y penderfyniad i ddyfarnu grantiau sydd:
  - (i) yn cynnwys ymgynghori, systemau pleidleisio neu fecanweithiau addas eraill;
  - (ii) yn rhydd o ragfarn, llygredd a chamddefnydd; ac
  - (iii) yn cynnwys partneriaethau â chyfryngau darlledu, electronig, argraffu a chyfryngau eraill.

## Adran saith

Grantiau dros £100,000 a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn

Mae ein cyfarwyddiadau polisi yn gofyn i ni restru'r holl grantiau a wnaed dros £100,000.

### Grantiau Strategol

£737,410	The Leonard Cheshire Foundation	£283,786	Nightstop UK Limited
£717,040	NSPCC	£272,566	Jennifer Trust for Spinal Muscular Atrophy
£709,640	Foundation Training Company Ltd	£267,471	Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gofal Plant Gwirfoddol
£634,577	Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO)	£260,186	Pilotlight
£596,900	Cymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol	£258,310	The Older People's Advocacy Alliance ( UK )
£551,729	D I A L U K	£254,205	Gwirfoddolwyr Treth
£550,433	Cyngor Ffoaduriaid Prydain	£250,000	National Centref for Disabled Youth
£500,000	First Step Trust	£249,567	Link Centre for Deafened People
£500,000	Youthnet UK	£247,786	Grŵp Anabledd Sefydliadau Gwirfoddol Scope
£498,995	U K Coalition Against Poverty	£233,238	The Rural Media Company
£478,736	Y Gymdeithas Strôc	£229,989	Over the Wall Gang Camp, The
£474,027	Y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus	£226,083	Spina Bifida and Hydrocephalus Association
£443,318	National Council on Ageing	£224,542	Spinal Injuries Association
£428,498	STAR (Gweithredu gan Fyfyrywyr dros Ffoaduriaid)	£220,390	Teuluoedd sy'n Gweithio
£425,473	Home Farm Trust Ltd	£209,506	Black Training and Enterprise Group
£409,687	Grŵp Cenedlaethol Dros Weithio Gartref	£208,953	Rhoi Pobl yn Gyntaf (Hunan-eiriolaeth)
£394,700	Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig	£208,500	Centrepoint Soho
£389,719	Inquest Charitable Trust	£206,182	Cymuned Ryngwladol Menywod sy'n Byw gyda HIV/AIDS
£386,160	Cymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae	£195,793	Grŵp Cyfreithwyr Pro Bono
£368,339	Cymdeithas Genedlaethol Cyngorau dros Wasanaeth Gwirfoddol	£190,890	The Challenging Behaviour Foundation
£360,452	Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain	£187,571	Education & Resources for Improving Childhood Continence
£359,979	A D F A M Cenedlaethol	£187,070	Ataxia UK
£358,444	Ymddiriedolaeth Drinkaware	£185,353	Devon Youth Association
£356,691	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth	£180,528	Hi8us Projects
£347,062	Coleg Brenhinol Seiciatryddion	£174,790	Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
£338,835	National Extension College	£170,361	Gwirfoddoli REACH
£325,824	Trust For The Study Of Adolescence	£166,234	Lleiafrifoedd Ewrop
£315,000	The M.M. National Gulf Veterans and Families Association	£166,000	Sensory Trust
£306,770	FRG Limited	£163,704	Agency For Culture and Change Management
£299,244	Rhwydwaith Gweithredu Dros Rieni Unigol	£163,200	Kidney Research UK
£298,794	Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr	£158,403	The Aidis Trust
£294,412	Rhwydwaith Maethu	£151,101	Friends Of The Earth Scotland
£292,073	Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion	£150,111	Rhwydwaith Rhannu Gofal
£290,043	Afiya Trust	£144,857	Cyngor Pobl Anabl Prydain
£288,347	Y Sefydliad Ymchwil Polisi ar Heneiddio ac Ethnigrwydd	£140,932	Uned Gwasanaeth Teuluol
£287,210	Cymdeithas Genedlaethol Sgitsoffrenia	£140,402	Dyslexia Action
£286,188	Cymdeithas y Plant Eglwys Lloegr	£134,566	Civil Liberties Trust
£285,903	Advance Housing and Support Ltd	£133,527	Oxfam
		£131,461	Grassmarket Project Limited
		£123,397	Advocacy Resource Exchange
		£111,999	Action Against Medical Accidents
		£102,368	The Lowe Syndrome Trust

**Rhyngwladol**

£793,959	Childhope UK
£755,937	Learning For Life
£751,417	Health Unlimited
£726,372	The Britain Nepal Medical Trust
£725,739	Andrew Lees Trust
£710,166	Intermediate Technology Development Group
£693,552	Project Hope UK
£679,041	Disability and Development Partners
£657,135	UWESO UK Trust
£641,807	Central America Women's Network
£634,536	Pencadlys Cenedlaethol Ambiwylans Sant Ioan
£607,374	S O S Sahel International (UK)
£604,759	Plant yr Andes
£570,741	Karuna Trust
£559,981	L E P R A (Cymdeithas Cymorth y Gwahanglwyf Prydain)
£523,041	Interact Worldwide
£516,429	The Whitley fund for Nature
£504,226	ACTIONAID
£502,461	Africa Now
£500,000	Datblygu Cymunedol Link
£490,045	CARE International UK
£470,498	Students Partnership Worldwide
£469,204	Leonard Cheshire Foundation
£461,956	Trocaire (Gogledd Iwerddon)
£434,754	Village Service Trust
£403,463	Mercy Corps Scotland
£397,379	The Haven Wolverhampton
£364,758	Ymddiriedolaeth BBC World Service
£363,562	Concern Universal
£355,829	Cambridge Female Education Trust
£350,860	Cicely Saunders Foundation
£349,307	Maternity Worldwide
£342,795	Prosiect Hawliau Dynol Cwrddiaid
£341,636	Gwasanaeth Gwirfoddol Dramor
£322,167	Hospice of Hope Romania Limited
£318,463	Children In Crisis
£316,789	Homeless International
£309,029	Plan International UK
£307,899	Asiantaeth Gatholig dros Ddatblygu Dramor
£304,350	Roy Trust (The)
£301,822	BasicNeeds
£300,000	Friends of Birzeit University

£293,420	Canolfan Mentrau Datblygu Cymunedau
£284,274	Concern Worldwide UK
£265,572	Mifumi Promotion Project( P R O M P T )
£218,050	Cynllun Lles Plant
£214,373	Lifeline Network International Nehemiah Project
£196,527	Concern Universal
£191,521	Ecologia Trust
£190,919	Permaculture Association (Prydain)
£190,202	Act4Africa Limited
£190,082	Cronfa Cymorth a Datblygu'r Methodistiaid
£180,430	Tibet House Trust
£172,602	Menywod a Phlant yn Gyntaf (DU)
£153,787	Ymddiriedolaeth Ryngwladol y Plant
£143,038	Pump Aid
£125,125	Cronfa Addysg a Datblygu Future in our Hands

**Ymchwil**

£503,028	Action for M.E.
£461,420	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
£381,436	CHANGE (Sefydliad i Bobl ag Anabledd Dysgu a Synhwyrdd)
£374,655	MIND Cymdeithas Genedlaethol Iechyd Meddwl
£368,344	St Luke's Hospice
£341,890	The Hepatitis C Trust
£306,247	Cornelia de Lange Syndrome Foundation, UK
£283,247	Grŵp Adfywio Cymdeithasol ac Economaidd Affrica Garibiäidd
£266,348	Bristol Crisis Service For Women
£205,236	Age Concern Barnsley
£200,276	The Chinese in Britain Forum
£196,046	Cymdeithas y Plant Eglwys Lloegr
£190,502	Children In Scotland:Working for Children and Their Families
£174,465	Health in Mind
£174,379	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
£141,132	Sefydliad Genedigaethau Lluosog
£101,720	Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor

## Adran saith

### Lloegr

#### Dwyrain Canolbarth Lloegr

£300,000	Chaos Enterprises (Leicester) Limited	£126,426	Leicester and Leicestershire Irish Forum
£225,641	Share The Care	£125,759	Safe and Sound Derby
£218,378	Nottingham and Nottinghamshire Refugee Forum	£125,329	Bassetlaw Womens Aid Ltd
£208,230	Saffron Young Peoples Project	£124,954	The Federation of Groundwork Trusts
£208,019	Next Step (Against Domestic Abuse)	£119,753	East Midlands Open Minds
£201,625	Lincoln Womens Aid	£118,253	The Royal Philanthropic Society incorporating The Rainer Foundation
£195,699	Mid Derbyshire Citizen's Advice Bureau	£117,820	Radford Care Grou
£191,951	2nd Swanwick Scout Group	£117,136	Chesterfield Citizens Advice Bureau
£189,000	The Aston on Trent War Memorial Hall	£117,002	Leicestershire Employment Action Today
£185,470	Nettleton Village Hall & Recreation Ground	£115,971	Leicester Lesbian, Gay And Bisexual Centre
£185,000	St Wilfrid's Community Centre	£115,916	Boston Community Transport Ltd
£183,071	Framework Housing Association	£114,797	Rural Community Council (Leicestershire & Rutland)
£181,282	Nottingham Council For Voluntary Service	£112,781	Deafblind UK
£180,159	Ashfield Links Forum	£112,708	Network for Change Limited
£180,000	The Bower Community Centre Management Committee	£112,256	Girls Friendly Society in England & Wales
£180,000	Engage East Midlands	£112,229	Derby Law Centre
£164,129	Memorial Park Trust	£112,000	Whaley Bridge Community Trust
£162,638	Carers Federation Nottingham and Notts Ltd	£111,421	Church of England Children's Society
£160,480	The Monitoring Group Ltd	£108,978	Boston District Council for Voluntary Service
£159,272	Leicester Chinese Community Centre	£107,466	Hollingwood After School Club
£153,740	The Meadows Partnership Trust	£106,923	South Derbyshire Citizens Advice Bureau
£152,234	Studentforce for Sustainability	£106,427	Nottinghamshire Unemployed Workers Centres Association Ltd
£150,739	Chesterfield & Dist Soc for People with Learning Disability	£105,051	Ashfield Women's Centre Limited
£150,000	Framework Housing Association	£104,883	Disability Direct
£150,000	North Wingfield Parochial Church Council	£103,615	Play At The Community House
£148,500	SOVA	£103,108	Daventry Welfare Rights Group
£148,390	Goldhill Play Association	£102,217	British Red Cross Society
£147,000	Huthwaite Parochial Church Council	£102,083	Borrowbrook Home Link
£146,968	Alfreton Shopmobility	£101,911	Pre School Learning Alliance
£146,555	Home Start Gainsborough Limited	£100,000	Beckingham & Saundby Village Hall and Playing Field
£145,442	Charnwood Racial Equality Council	<b>Dwyreiniol</b>	
£140,000	Sikh Community & Youth Service	£295,713	Stanbridge & Tilsworth Community Association
£138,639	Tibshelf Cardiac Rehabilitation Support Group	£290,000	Framlingham Community Centre Trust
£138,208	Derby Parenting and Family Centre	£286,815	West Norfolk Citizens Advice Bureau
£135,932	Freed	£277,625	Headway Essex
£133,956	Clowne And District Community Transport	£260,000	Bentley Village Hall
£133,225	Ashbourne Volunteer Bureau	£259,750	Bacton Village Hall
£132,517	The Volunteer Centre	£259,479	Mildenhall Road Estate Community Association
£130,445	Clarendon Advice Centre		
£128,547	Choice Support		

£239,632	Beds Garden Carers	£141,892	Centre Thirty Three Young Peoples
£236,506	Fenland Council for Voluntary Service		Counselling and Information Service
£225,591	Essex Racial Equality Council	£137,673	Red2Green
£206,415	Bedfordshire African Support Project	£135,024	Farleigh Hospice
£200,403	Childrens Legal Centre	£134,773	Age Concern Colchester
£198,880	Speaking Up	£134,763	Cambridge Refugee Support Group
£198,877	Diss, Thetford and District Citizens	£134,378	Lowestoft & District Citizens Advice Bureau
	Advice Bureau	£131,776	Family Lives
£195,873	Out And About	£131,191	The Bridge Project Sudbury
£195,375	Cambridge Chinese Community Centre	£131,108	Cambridge Mencap
£194,845	Saffron Sight	£130,668	Thurrock Open Door
£194,371	Contact A Family	£130,000	Chatterbox Pre school Playgroup
£193,522	Great Yarmouth Refugee Outreach & Support	£125,879	Waveney Community Forum cvs Limited
£187,676	Mary Seacole Housing Association	£119,774	The Lewsey Farm Cafe Project
£186,930	Voluntary Action Epping Forest	£116,514	Fenland Association For Community
£185,387	Open Youth Trust		Transport Limited
£180,964	Wendens Ambo Village Hall	£116,037	Contact The Elderly
£180,765	Norfolk Association For The Care &	£112,445	The Prospects Trust
	Resettlement Of Offenders	£109,961	Epping Citizens Advice Bureau
£179,950	Suffolk Befriending Scheme for People	£107,985	Chelmsford Agency for Volunteering
	with Learning Disabilities	£107,326	Great Oakley Pre School
£176,919	Home Start North and MidBeds	£106,803	Kickstart
£175,722	Bedfordshire Pilgrims Housing	£106,308	Dial Basildon
	Association Ltd	£100,801	West Norfolk Mencap
